

## RHWYDWAITH MENTER LEIN CALON CYMRU

Rydym yn cydweithio gyda grwpiau a busnesau lleol i gryfhau cysylltiadau gyda'r rheilffordd. Sefydlir nifer o ganolfannau-rheilffordd-gymunedol. Mae caffi / oriel Gorsaf Llanymddyfri yn llwyddiant mawr, a datblygir canolfannau eraill ar hyd y lein. Ewch i [www.howlenterprise.co.uk](http://www.howlenterprise.co.uk) i gael mwy o wybodaeth.

## TWRISTIAETH EGLWYS CTNW

Mae nifer o bobl yn mwynhau ymweld â hen eglwysi, i fwynhau'r pensaerniaeth, archwilio hanes lleol ac olrhain atgofion teuluol. Mae Rhwydwaith Twristiaeth Eglwysi Cymru (CTNW) – a ail-enwir yn Sanctaidd – yn darparu cysylltiadau a chefnogaeth. Bydd [www.ctnw.co.uk](http://www.ctnw.co.uk) yn dweud mwy wrthy ch a cheir manylion am eglwysi hygyrch ar hyd y daith ar [www.heart-of-wales.co.uk](http://www.heart-of-wales.co.uk).

## CONCIERGE CEFN GWLAD

Yn newydd ar gyfer 2016 yw ein cysylltiad gyda'r mudiad twristiaeth a pheccynnau twristaidd hwn. Mae'r arbenigwr profiadol Liz Hill a'i thîm yn cydweithio gyda ni i gasglu ffyrdd diddorol o archwilio Calon Cymru. Ewch i [www.ruralconcierge.co.uk](http://www.ruralconcierge.co.uk) i weld beth sydd ar gael neu i gysylltu â Liz.

## DIGWYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU

Ceir nifer o ddigwyddiadau ar hyd y daith gydol y flwyddyn. Maent yn amrywio o ddigwyddiadau blynyddol mawr fel Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ar faes sioe Llanellwedd ger Llanfair ym Muallt, gweler [www.rwas.wales](http://www.rwas.wales), i sioeau blodau a chynnyrch lleol sy'n rhoi mewnwleidiad hyfryd i fywyd a chystadlaethau lleol. Ar naill ben a llall y daith ceir prif ddigwyddiadau: mae gan Abertawe nifer o ddigwyddiadau gydol y flwyddyn [www.swansea.gov.uk/whatson](http://www.swansea.gov.uk/whatson) ac mae'r Amwythig yn haeddu ei balchder yn ei sioe flodau blynyddol [www.shrewsburyflowershow.org.uk](http://www.shrewsburyflowershow.org.uk)

## EWCH I'N GWEFAN

Mae gan [www.heart-of-wales.co.uk](http://www.heart-of-wales.co.uk) restr o weithgareddau a ddiweddarir yn rheolaidd ac mae 'Visit Wales' [www.visitwales.com/thingstodo/whatson](http://www.visitwales.com/thingstodo/whatson) yn rhoi syniadau misol i chi ar gyfer dyddiau allan pleruser.

Os ydych yn mwynhau cerdded mae dewis dirifedi gennych. Mae'n cysylltu \* gyda sawl taith pellter hir gan gynnwys Ffordd Amwythig (\*Craven Arms), Llwybr Clawdd Offa (\*Trefyclo), Llwybr Dyffryn Gwy (\* Llanfair ym Muallt), Llwybr Glyndwr (\*Trefyclo), Llwybr Sant Illtyd (\*Pontarddulais), a Llwybr Arfordirol Cymru (\*Llanelli, Abertawe).

Mae gan bob sir a wasanaethir gan i lein nifer o lwybrau troed lleol a restrir ar:-  
[www.visitswanseabay.com/walking](http://www.visitswanseabay.com/walking)  
[www.discovercarmarthenshire.com/active/walking](http://www.discovercarmarthenshire.com/active/walking)  
[www.tourism.powys.gov.uk](http://www.tourism.powys.gov.uk)  
[www.walkinginshropshire.co.uk](http://www.walkinginshropshire.co.uk)

TEITHIAU CERDDED O LEIN CALON CYMRU CERDDED Y Crwydrwyr  
Mae gan [www.ramblers.org.uk](http://www.ramblers.org.uk) deithiau cerdded a digwyddiadau ar hyd y daith.

Mae Llyfrau Kittiwake Fforwm Lein Calon Cymru wedi cynhyrchu llyfrau o deithiau cerdded i ac o orsafoedd ar hyd y lein. Gallwch brynu copi drwy ymweld â [www.Kittiwake-books.co.uk](http://www.Kittiwake-books.co.uk)

#### Y TEITHIWR DYDD CYLCHOL

Mae'r tocyn poblogaidd hwn yn golygu y medrwch archwilio'r daith gyfan yn ogystal â lein brydferth y Gororau. Mae'n ddilys ar gyfer siwrnai gylchol Abertawe = Llandrindod - yr Amwythig - Henffordd - Caerdydd - Abertawe, am un diwrnod.

Gallwch ddechrau a gorffen mewn unrhyw orsaf: gallwch dorri eich siwnai ble y mynnoch. Does dim angen bwcio ymlaen llaw - dewch i'r orsaf a dechreuwch eich siwrnai: i hwyluso'r bwcio cod y tocyn yw HWE. Pris £39 oedolyn, £19.50 plentyn: gostygiad o 33% gyda Cherdyn Rheilffordd Cenedlaethol. Ffordd wych i gael argraff gyffredinol o'r ardal neu os yw't tywydd yn amheus!

#### ARCHWILIWCH LEIN CALON CYMRU 2016

Fe wyddoch mai dyma yw eich bwriad.

#### MANNAU I FYND IDDYNT -----

Gyda dros 30 o orsafoedd ac arosfeydd ar y daith mae digonedd o ddewis gennych, ond beth am .....

#### Llandeilo

Tref ddeniadol a hanesyddol ar yr afon Tywi. Mae'n werth ymweld â Thŷ Newton a Pharc Dinefwr sydd gerllaw. Mae casgliad da o sioapu yn y dref gan gynnwys mwy o siopau ffasiwn merched nag sy'n bosibl! Gerllaw mae gerddi Aberglasney a'r Gerddi Botaned Cenedlaethol Cymru.

#### LLANYMDDYFRI

Dyma un o Drefi enwog y Porthmyn lle'r oedd porthmyn yn casglu o'r wlad amgylchynol cyn gyrru'r gwartheg i Lundain. Mae gwirfoddolwyr yn gofalu am orsaf Llanymddyfri ar ei newydd wedd fel caffi ac oriel. Ewch i weld castell y dref a'r gofgolofn i Lywelyn ap Gruffudd Fychan (a adwaenir yn lleol fel cerflun Darth Vader), ac archwilio'r siopau! Ceir Gŵyl Ddefaid boblogaidd hefyd bob mis Medi.

#### Llanwrtyd

Mae'n honni mai hi yw 'tref lleiaf Prydain': mae'n enwocaf fyth am ddiwyddiadau ecsentrig a phleserus fel snorcelu cors a rasys 'dyn yn erbyn ceffyl'. Mae ynghanol cefn gwlad bendigedig a dyma'r fynedfa i fwlc Abergwesyn. Mae manau da i fwyta ac aros yno hefyd...

## **Llandrindod**

Am sawl blynedd mae Llandrindod wedi bod yn enwof fel tref y ffynhonnau, ac mae'n bosibl profi'r dŵr iachaol hyd heddiw. Mae'n werth gweld pensaerniaeth Fictoraidd y dref, ac mae cyfleusterau gwestai da yno. Yn ddiweddar mae'r dref wedi ail-frandio'i hun dan yr enw '**Llandrindod Wellness**', er mwyn pwysleisio yr hyn sydd ganddi i'w gynnig i gefnogi ffordd iach o fyw. Mae'n ganolfan ardderchog ar gyfer archwilio'r ardal. Crwydrwch o gwmpas y llyn, ewch i ymweld ag amgueddfa Sir Faesyfed gyda'i thrysorau Rhufeinig, galwch yn yr Amgueddfa Seiclo Cenedlaethol, mwynhewch de prynhawn ac ymlaciwch ...

## **Rhaeadr a Dyffryn Elan**

Ger Llandrindod, Rhaeadr yw'r fynedfa i Gwm Elan, sydd wedi cyflenwi dŵr yfed i Frimingham ers dechrau'r 20<sup>fed</sup> ganrif. Ewch i dref Rhaeadr ac yna i Ganolfan Ymwelwyr gwych Gwm Elan (sydd ar agor gydol y flwyddyn) ar y gwasanaeth Linc Tacsï a ddarperir gan Geir Simon Price. Mae'n weithredol ar ddyddiau Llun, Mercher a Gwener neu drwy drefniant arbennig ar ddyddiau eraill.

Mae bwcio o leiaf 2 awr ymlaen llaw yn hanfodol, ffoniwch 01597 810666 neu ddilynwch y llwybr troed, gyda rhan ohono ar daith y rheilffordd a ddefnyddiwyd i adeiladu'r cronfeydd.

## **Trefyclo**

'Tref farchnad brydferth yng nghanol cefn gwlad ysblennydd y Gororau' yw disgrifiad Trefyclo ohoni ei hun. Hefyd, mae'n gyrchfan owysig y Glawdd Offa poblogaidd. I gael diwrnod rhyngwladol, allwch chi ddim curo Trefyclo, gan fod yr orsaf yn Lloegr a'r dref yng Nghymru.

## **Craven Arms**

Dyma lle mae Lein Calon Cymru yn ymuno â'r brif lein i'r Amwythig a Chasnewydd. Mewn pellter cerdded mae Canolfan Darganfod Bryniau Amwythig, ac ychydig ymhellach mae Castell Stokesay. Cofiwch wylïo am John, cath yr orsaf, sydd i'w weld yn aml yn patroli'r platfform.

## **Map**

Yr Amwythig

Craven Arms

Trefyclo

Llandrindod

Llanwrtyd

Llanymddyfri

Llandeilo

Rhydaman

Pantyffynnon

Llanelli

Abertawe

Prif orsafoedd

Gorsafoedd eraill, Arosfeydd

